LGBC11M/2001

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD IAU 20fed RHAGFYR 2001 AM 10.30am YN NHŶ CARADOG, ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD

Presennol:

Y Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr. E Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S Halsall
Mrs. S Smith (Aelod)	Mr. C Chapman
	Mr. D Carr
	Gwesteion
	Mr. JE Davies
	Mr. D Roberts

1. Cofnodion o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 21ain Tachwedd 2001

1.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf yn amodol ar rai mân newidiadau.

2.1 Materion yn codi

2.1 Deallai'r Ysgrifenyddiaeth a'r Comisiynwyr oddi wrth yr Is-Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol o fewn y Cynulliad y byddai cyfarwyddiadau yn ymwneud â'r Siroedd a Gedwir yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir

2.2 Nododd y Cadeirydd ei siom nad oedd y gorchmynion ar gyfer yr arolygon etholiadol a'r arolygon ffin sy'n weddill wedi'u cwblhau gan y Cynulliad. Cafwyd ar ddeall mai trafferthion yn ymwneud â chyfieithu a chartograffeg oedd y rheswm dros yr oedi o ran yr arolygon ffin.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ardal Cymunedau Llangollen a Llandysilio - Crynodeb o'r Cynrychioliadau yn dilyn y Cynigion Drafft.

3.1 Adolygodd y Comisiynwyr yr holl ddadleuon a roddwyd ger eu bron yn y cynrychioliadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r arolwg hwn. Cafodd y prif feysydd dadleuol a amlygwyd gan gefnogwyr a gwrthwynebwyr Cynigion Drafft y Comisiwn eu pwyso a'u mesur gan greu cydbwysedd barn rhwng y ddau barti.

3.2 **Penderfynwyd** derbyn cais Dr John Marek AC i gynnal cyfarfod cyhoeddus yn yr ardal i roi cyfle llawn i bawb roi eu barn. **Cytunwyd** y dylid cynnal cyfarfod cyhoeddus i gasglu tystiolaeth yn ardal Llangollen erbyn diwedd mis Ionawr 2002. **Cytunwyd hefyd** y dylid gwneud cais i'r Cynulliad i ymestyn y dyddiad cau i ystyried y cyfarfod hwn.

3.3 **Cytunwyd** y dylid cyhoeddi datganiad i'r wasg ynglŷn â'r cyfarfod cyhoeddus ar unwaith.

4. Cynnydd ar Arolygon - Adroddiad Llafar

4.1 Cymuned

4.1.1 **Llanbadarn Fynydd, Llanbister, Abaty Cwmhir (Powys)** - Anfonwyd llythyrau yn gofyn am sylwadau ar y ffin arfaethedig. Y dyddiad cau ar gyfer cynrychioliadau yw 21 Rhagfyr. Ar yr amod na fydd y cynrychioliadau yn cynnwys gwrthwynebiadau, paratoir drafft o gynigion y Comisiwn. Rhagwelir y cyflwynir y drafft hwn yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Chwefror.

4.1.2 **Rhyl, Prestatyn, Dyserth, Bodelwyddan (Sir Ddinbych) -** Cadarnhaodd ymweliad â'r safle (mewn cydweithrediad â'r Arolwg Ordnans) ar 29/30 Tachwedd bod y ffiniau arfaethedig yn dilyn nodweddion priodol y gellid eu nodi yn hawdd. Gyda chymorth yr Arolwg Ordnans, nodwyd ardal fach o'r ffin rhwng y Rhyl a Bodelwyddan a oedd wedi dod yn aneglur i ddod yn llinell newydd. Derbyniodd y Cyngor Sir y newid arfaethedig hwn. Gellir paratoi drafft o gynigion y Comisiwn bellach ar gyfer cyfarfod mis Chwefror.

4.2 Ffin

4.2.1 **Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro (Clunderwen) -** Cyhoeddwyd adroddiad Cynigion Terfynol y Comisiwn ar 14 Rhagfyr.

4.2.2 **Ceredigion/Sir Benfro (Llandudoch) -** Cyhoeddwyd adroddiad Cynigion Terfynol y Comisiwn ar 19 Rhagfyr.

4.2.3 **Caerdydd/Bro Morgannwg (Ffordd Gyswllt Grangetown) -** Mae adroddiad Cynigion Terfynol y Comisiwn yn cael ei baratoi i'w gyhoeddi yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Felly bydd angen ychwanegu enwau'r comisiynwyr newydd i'r adroddiad.

4.2.4 **Casnewydd/Tor-faen** - Caiff adroddiad drafft o adroddiad Cynigion Terfynol y Comisiwn ei baratoi yn ôl cyfarwyddyd y cyfarfod diwethaf. O ganlyniad i'r flaenoriaeth a roddwyd i arolygon eraill a'r egwyl dros y Nadolig, mae'n bosibl na fydd yr adroddiad yn barod erbyn cyfarfod y Comisiwn ym mis Ionawr.

4.2.5 **Aman Uchaf** - dim cynnydd.

5. Swyddfeydd Tŷ Caradog

5.1 Hysbyswyd y Comisiynwyr bod y Gwasanaeth Cyflogi yn ail-fesur y swyddfeydd o fewn Tŷ Caradog. Credid bod y gwaith hwn yn cael ei gynnal i ail-werthuso'r rhent sy'n daladwy gan denantiaid ac i gael mynediad i'r dyraniad llefydd parcio ceir o ystyried bod y Comisiwn Etholiadau yn rhentu swyddfeydd ar 3^{ydd} llawr Tŷ Caradog.

5.2 Hysbyswyd y Comisiynwyr hefyd o'r posibilrwydd o faich ariannol ychwanegol ar rent y Comisiwn yn deillio o osod system larwm tân newydd yn ystod y Flwyddyn Newydd.

5.3 Gofynnwyd i'r Comisiynwyr nodi'r datblygiadau hyn.

6. Unrhyw Fater Arall

6.1 Gair wrth Ymadael

6.1.1 Roedd yr Athro Sunderland am gofnodi ei werthfawrogiad o waith a chymorth gwerthfawr Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn ystod ei dymor fel Cadeirydd.

6.1.2 Diolchodd y Cadeirydd hefyd i Mr. FitzHugh a Mrs. Smith am eu cymorth parod, a fu o bleser mawr iddo, a dymunodd yn dda iddynt yn y dyfodol.

6.2 Ymarfer Ail-Frandio Hunaniaeth Gorfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6.2.1 Rhoddodd Mrs. Smith adroddiad ar gyfarfod a fynychodd o dan gadeiryddiaeth Prif Weinidog Cymru.

6.2.2 Hysbyswyd y cyfarfod gan Mrs. Smith y cynhelir ymarfer ail-frandio mawr o'r Cynulliad o 1af Mawrth 2002, ac y byddai goblygiadau i ddeunyddiau ysgrifennu a gwefannau ASPB yn deillio o hyn, gyda'r geiriad "ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru" a logos â geiriad tebyg i gael eu hymgorffori. Yr oedd prif Weinidog Cymru yn edrych am ymagwedd "Tîm Cymru". Codwyd pryder o ran yr effaith ar annibyniaeth dybiedig y Comisiwn mewn unrhyw ymarfer brandio o'r fath.

6.2.3 **Cytunwyd** y dylid cael cyngor yr Is-adran Nawdd ar y goblygiadau o ran adnoddau a sicrwydd am gymorth ariannol ychwanegol gan y Cynulliad ar gyfer gweithredu unrhyw brosiect o'r fath yn y cyfarfod cyswllt ym mis Ionawr 2002. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn bryderus am y costau ychwanegol a fyddai'n deillio o uwchraddio gwefan bresennol y Comisiwn, yn nhermau ymchwil a gweithredu.

6.3 Cyfarfod Agored Blynyddol y Comisiwn 2002

Cytunwyd y byddai Cyfarfod Agored Blynyddol y Comisiwn yn cael ei gynnal yn ystod 2il wythnos mis Hydref 2002 yn Neuadd Sir Benfro, Hwlffordd. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn trafod dyddiad priodol â Chyngor Sir Penfro.